# Cofnodion Cyfarfod 7/7/2022

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Moira Mai, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd (Zoom)

Lis Puw *(Clerc)*.

**Cyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru:** Dywedodd Andy Basford (dros Zoom) eu bod wedi cyrraedd hanner ffordd yn y prosiect ond gyda gofid roedd angen parhau i gadw llwybr y blaendraeth ar gau dros wyliau'r haf. Hefyd fe fydd y goleuadau traffig yn Heol Tegid yn rhai parhaol ym mis Awst. Mae llawer iawn o waith wedi ei wneud eisoes, ond mae gwaith eto wrth y cae rygbi a'r safle seindorf. Ar hyn o bryd fe fydd rhaid cadw'r ffens wrth y caffi. Dangosodd sleidiau o'r gwaith wrth arglawdd y Ddyfrdwy a dywedodd y gellir trefnu ymweliad safle i'r Cynghorwyr os dymunant. Eglurodd y gwaith sylfaenol o dan wyneb y pridd ar gyfer atal llifogydd a soniodd hefyd am y gwaith ail-hadu a phlannu. Bydd yn trafod materion biniau gyda Chyngor Gwynedd a bydd meinciau yn cael eu symud i lan yr afon Tryweryn. Dywedodd fod nifer o'r coed ynn a derw wedi pydru tu mewn. Diolchwyd yn gynnes i Mr Basford am ei gyflwyniad a dywedwyd fod canmoliaeth i'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn.

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Maer a llongyfarchodd Sion McGuinness ar ychwanegiad i'r teulu. Anfonwyd cofion a dymuniadau da at Sharon Evans, un o gyn-feiri'r dref, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd gyda Dilys Evans a'r teulu yn eu profedigaeth diweddar.
2. **Ymddiheuriadau** Clare Mackintosh, Sion McGuinness.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 9/6/22.
5. **Materion y Clerc:**

    i. Derbyniwyd diolch gan glybiau chwaraeon am y llongyfarchion a anfonwyd.

    ii. 4i Arwyddion Y Bala wrth ddod mewn i'r dref: ystyriwyd cynllun a anfonwyd gan un o swyddogion NMWTRA a rhannwyd lluniau a gafwyd o'r we. Cytunwyd fod angen mwy o gymeriad Y Bala, ac arwydd mwy urddasol a chreadigol a fyddai'n cyfleu rhywfaint o hanes y dref yn hytrach na dim ond gweithgareddau ar gyfer twristiaid. Cytunwyd i ofyn i blant Ysgol Godre'r Berwyn gystadlu gyda dyluniadau erbyn diwedd Medi.

    iii. 4ii Derbyniwyd gwybodaeth fod toiledau'r Plase a'r Grin bellach ar agor.

iv. 13.1 Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan Mabon ap Gwynfor AS a'r Gweinidog Lee Waters eu bod wedi derbyn cais am ardal 20mya yn Heol Ffrydan.

v. 13ii Ymatebodd Cyngor Cymuned Llanycil eu bod hwythau yn bryderus am barcio wrth y fynwent, a'u bod yn ceisio cysylltu gyda Byd Mary Jones i gael mynediad i'r maes parcio yno.

vi. 13iv Derbyniwyd ymateb Cynefin i fater torri gwrych yn Ro Wen. Mae'r gwaith wedi ei wneud i ryw uchder ac addawodd Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd am y mater.

vii. Derbyniwyd llun o fin baw ci orlawn. Pwysleisiwyd nad cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw biniau ac anogwyd cynghorwyr i ddefnyddio apGwynedd i roi gwybod am broblemau tebyg ac i beidio disgwyl i Glerc y Cyngor weithredu ar eu rhan. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n dangos sut i ddefnyddio'r ap yn y cyfarfod nesaf.

viii. Hyfforddiant Un Llais Cymru: Rhannwyd Amserlen Gorffennaf ac anogwyd Cynghorwyr newydd i wneud eu trefniadau hyfforddiant eu hunain ar amser sy'n gyfleus iddynt trwy e-bostio Wendi Patience wpatience@onevoicewales.wales Dylid nodi eu bod yn aelodau o Gyngor Tref Y Bala gan mai'r Cyngor sy'n talu am yr hyfforddiant.

6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd a diolchwyd iddo am ei waith:

i. 20mya Heol Ffrydan. Diolch i'r Cyngor Tref a Llywodraethwyr Ysgol Godre'r Berwyn, Mabon ap Gwynfor AC a nifer o unigolion am fynegi pryder am y diffyg symud ar y cynllun 20mya Heol Ffrydan. Wedi cael gwybodaeth y bydd " cyflwyno newidiadau perthnasol ir cyflymder yn ardal y Bala yn fuan". Hefyd ardal y Bala wedi ei dynodi yn ardal dynodedig ar gyfer Teithio llesol sydd yn newydd da o ran dynodi llwybrau cerdded /beicio saff o fewn y dref a hefyd datblygu llwybr Bala i Frongoch a Bala Llanuwchllyn

ii. Meinciau y dref wedi cael eu ail beintio gan y Cyngor Sir.

iii. Swyddog MWTRA wedi cadarnhau y bydd cynllun tymor hir yn cael ei gomisiynu ar gyfer y coed ar y Stryd Fawr ynghyd a gwaith tocio brigau angenrheidiol. NMWTRA hefyd wedi derbyn cyfrifoldeb am y chwyn ar y Stryd Fawr ac yn rhaglennu gwaith i'w clirio.

iv. Cydweithio a Heneiddio yn Dda ar brosiect "Meinciau Cyfeillgarwch" Awel y Coleg, ac Ysgol Godre'r Berwyn i ddylunio a phaentio dwy fainc. Meinciau y Cyngor tref i'w defnyddio os yn addas.

v. Y Ganolfan Deulu yn datblygu yn dda ac yn agor cyn gynted a bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau

vi. ADRA wedi cytuno i wneud gwaith amgylcheddol yn Cysgod y Coleg, cyfle i drigolion blannu blodau etc

7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** *gweler uchod*

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)

i. **Asedau:** Bydd John Caradog Williams yn trefnu i adnewyddu baner y Ganolfan Hamdden. Bydd angen cadw'r polion fflag dros y gaeaf a'u paentio. Cafwyd trafodaeth ar y leoliad y llochesi bws newydd ond ni dderbyniwyd gwybodaeth eto am ariannu eu glanhau.

   Mynegwyd pryder am gyflwr y di-ffib wrth y Llew Gwyn ac addawodd Eric Williams i drafod y mater gydag aelodau o'r Rotari. Dywedodd y Clerc eu bod wedi ceisio cysylltu gyda Heledd Roberts parthed gwirio di-ffib y ciosg, sy'n eiddo i'r Cyngor Tref.

   Mae angen gwaredu'r meinciau pren sydd wedi malu wrth Cysgod y Coleg, a sgriwio mainc arall sy'n rhydd.

   Tynnwyd sylw at y perygl posib i blant neu bobl ddisgyn wrth y giât wrth Loch Cafe; bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r warden.

ii. **Bioamrywiaeth:** Disgwylir adroddiad ar y coed gan NMWTRA. Y bwriad yw llunio polisi a siarad gyda pherchnogion ardaloedd gwyrdd ac i gynyddu bioamrywiaeth.

iii. **Mynediad:** Mae ardaloedd penodol wedi eu nodi ond nid yw'r is-bwyllgor wedi cyfarfod yn ffurfiol eto.

iv. **Nadolig:** Mae'r is-bwyllgor yn bwriadu parhau i adeiladu ar yr adnoddau sydd ar gael.

*9.* **Materion Cynllunio**: Nid oedd cais wedi dod mewn.

**10. Materion Cyllid:**

**i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**ii.** Ystyriwyd derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu:

Derbyniwyd: Ar-doll parcio 1/11/21 – 31/3/22 - £473.47

Taliadau o dan cytundeb: Clerc / Llochesi / Tomen

Cytunwyd i wneud Taliadau i: HMRC £327.40; Geiriau Gwyn £207.96 (cynnwys TAW)

**iii.** Ystyriwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a diolchwyd i'r Clerc fod y materion ariannol yn 2021-22 mewn trefn.

**iv.** Ystyriwyd Ffurflen Flynyddol 2021-22, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Nodiadau Datgelu Ychwanegol.

**v.** Cytunwyd i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn 2021-22 i sylw'r Archwilydd Allanol ac arwyddodd y Maer y Ffurflen Flynyddol.

**11. Gohebiaeth:** Ystyriwyd a nodwyd Gohebiaeth:

**i.** Cyngor Gwynedd: Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy
**ii.** Un Llais Cymru: Cylchlythyr i aelodau
**iii.** Un Llais Cymru : Llunio Dyfodol Cymru
**iv.** Un Llais Cymru: Wythnos Natur
**v.** Un Llais Cymru : Canllaw y Cynghorydd Da
**vi.** Cyfoeth Naturiol Cymru: gwahoddiad i fynychu arddangosfa parthed coedwigoedd lleol yn y Ganolfan Hamdden 11/8/22 rhwng 2.00pm a 7.00pm.

vii. Llywodraeth Cymru: Canllawiau Statudol Deddf Llywodraeth Leol 2021 *(e-bost)*

**viii.** Llywodraeth Cymru: Pecyn Cymorth – Llywodraethu a Chyllid. Cytunwyd y dylai'r Is-bwyllgor cyllid ystyried hwn.

**ix.** Cais gan aelod o'r cyhoedd am wybodaeth: cytunwyd i gyfeirio'r holwr at wefan gwerthwyr eiddo i gael hyd i fanylion perchnogaeth eiddo yn y dref.

**x.** Eisteddfod Powys – enwyd y Dirprwy Faer fel cynrychiolydd i orymdeithio.

**12. Partneriaeth Penllyn:** gohiriwyd y cyfarfod diwethaf oherwydd amgylchiadau personol.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Mynegwyd fod mater parcio ar y pafin wedi ei drafod nifer o weithiau a gyda nifer o asiantaethau, ond nid oes datrysiad ar gael ar hyn o bryd.

Cyn dymuno gwyliau haf hapus, tan-linellodd y Maer mai gwasanaethu cyfarfodydd y Cyngor yw rôl y Clerc ac mai dim ond mewn argyfwng y dylid cysylltu gyda'r Clerc. Dymunodd yn dda i wardeiniaid Llyn Tegid sydd yn wynebu cyfnod prysur iawn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 1/9/2022

Amser gorffen: 9.40pm